



Jenny Rathbone AS  
Senedd Cymru  
Caerdydd  
CF99 1NS

19 Mehefin 2023

Annwyl Jenny,

Rwy'n ysgrifennu atoch i egluro rhywbeth a ddywedais yn ystod fy natganiad ar y Strategaeth Ddiagnostig (25 Ebrill) ac yn fy ymateb i gwestiwn llafar OQ59380 (26 Ebrill).

Ar y ddau achlysur hynny cyfeiriais at yr angen i brofi llawer o bobl er mwyn dod o hyd i'r nifer cymharol fach sydd â chanser mewn gwirionedd. Er mwyn cyrraedd y 5 y cant, dywedais fod angen i ni brofi 95% o'r cyhoedd. Roedd y canran hwn yn amcangyfrif, a gall y ffigur hwn amrywio.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal wedi cyhoeddi meini prawf atgyfeirio canser. Roedd y grŵp datblygu canllawiau yn teimlo, er mwyn gwella diagnosis o ganser, bod gwerth rhagfynegol cadarnhaol o lai na 5% yn well a phenderfynwyd defnyddio trothwy o 3% ar gyfer atgyfeiriadau ac ymchwiliadau brys.

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa **bresennol** yng Nghymru fel a ganlyn:

Yn y cyfnod 12 mis diwethaf (Mawrth-22 i Chwefror-23), yn ôl StatsCymru mae bron i 180,000 o lwybrau wedi cael eu hagor ar y llwybr amheuaeth o ganser. Rydym yn amcangyfrif y bydd tua 12% o'r llwybrau a agorwyd yn gofyn am driniaeth canser yn dilyn hynny. Mae hyn yn dangos nifer yr ymchwiliadau y mae'n rhaid i'r GIG eu darparu i ganfod canser cyn gynted â phosibl.

Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd er gwybodaeth.

Yn gywir

Eluned Morgan AS/MS  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.